

Lesley Griffiths AC / AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion
Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - L/LG/0810/18

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCLA@assembly.wales

5 Rhagfyr 2018

Annwyl Mick,

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod ichi fy mod wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Rheoliadau Llifogydd a Dŵr (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 30A.

Rwyf yn ysgrifennu hefyd i roi gwybod ichi nad wyf yn bwriadu cyflwyno cynnig i gynnal dadl am yr OS hwn yn yr achos hwn. Rwyf wedi gwneud y penderfyniad hwnnw ar sail y ffaith mai'r unig beth y mae'r OS hwn yn ei wneud yw gwneud diwygiadau sy'n ymwneud â gweithredadwyedd a fydd yn codi oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE.

Mae'r darpariaethau yn yr OS yn ymdrin â diwygiadau sy'n ymwneud â gweithredadwyedd mewn perthynas â Deddf Dŵr 1989, Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, Deddf Adnoddau Dŵr 1991 a Deddf Dŵr 2014 ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn yr achos hwn.

O ystyried faint o ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei ystyried, nid wyf yn credu y byddai dadl am yr OS hwn yn ddefnydd cynhyrchiol o amser gwerthfawr y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, mae Rheol Sefydlog 30A yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu y caiff unrhyw aelod gyflwyno cynnig am ddadl ar yr OS hwn. Os bydd dadl o'r fath yn cael ei chynnal, byddwn yn barod iawn i gymryd rhan ynddi.

Cofion,

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs